Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Yr Hen Reithordy**

**Old Rectory**
**Amlwch**
**LL68 0PY**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

**Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad**

**20 Rhagfyr 2019**

# Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2020.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio’r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau’r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â’i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Disgrifiad o'r gwasanaeth

Gwasanaeth cartref gofal ym mhentref Llanfellech, ger Amlwch ar Ynys Môn yw'r Hen Reithordy. Mae Cartrefi Cymru Co-operative Ltd wedi ei gofrestru i ddarparu gwasanaeth ar gyfer hyd at bum person, ag anableddau dysgu ac anableddau corfforol. Adrian Roper yw'r unigolyn cyfrifol a benodwyd ac mae rheolwr yn gweithio yno, sydd wedi ei gofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru (GCC).

## Crynodeb o'n canfyddiadau

### 1. Asesiad cyffredinol

Cymerwyd camau gweithredu yn dilyn yr arolygiad blaenorol i wella'r rhan fwyaf o'r ardaloedd, yn yr amgylchedd, y mae angen sylw arnynt. Mae hyn wedi gwella cysur pobl, eu hymdeimlad o hunan-werth ac wedi diogelu eu hiechyd a'u diogelwch ymhellach. Mae angen sylw ar rai ardaloedd o hyd a disgwyliwn i'r darparwr gymryd camau gweithredu ynghylch y materion hyn sy'n weddill. Gwnaed argymhellion ynghylch sut y gellid sicrhau bod yr amgylchedd yn fwy diogel i'r bobl a gwella'r modd y mae'r rheolwr yn cofnodi'r gwaith o fonitro'r amgylchedd. Yn yr arolygiad hwn, gwelsom fod y cartref wedi cydymffurfio â'r rheoliadau.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

### 2. Gwelliannau

Ers yr arolygiad blaenorol gwnaed y gwelliannau canlynol i'r gwasanaeth:

- Mae wynebau gweithio cegin, llawr, gwyntyll echdynnu popty a ffriwr dwfn wedi cael eu darparu;
- Mae'r rhan fwyaf o'r ardaloedd yr oedd angen eu paentio wedi cael sylw;
- Mae arferion rheoli heintiau wedi gwella am fod biniau pedal a weithredir gan droed a thywelion llaw papur wedi cael eu rhoi yn yr ystafelloedd ymolchi a'r toiledau;
- Mae amserlen lanhau wedi cael ei chyflwyno ac mae'r rheolwr wedi trefnu i safon y glendid yn yr amgylchedd gael ei monitro'n amlach.

### 3. Gofynion ac argymhellion

Mae adran pedwar o'r adroddiad hwn yn nodi ein hargymhellion ar gyfer gwella'r gwasanaeth. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:

- Cofnodi pryd y caiff y peiriant dŵr yn yr oergell ei lanhau a phryd y caiff y dŵr ei newid.
- Cael cadair cawod newydd a darparu step er mwyn helpu pobl i ddringo i mewn ac allan o'r bath yn ddiogel.

- Cofnodi gwiriadau a wneir gan y personau cofrestredig o lendid a gwaith cynnal a chadw'r amgylchedd.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## 1. Llesiant

### Ein canfyddiadau

Mae pobl yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi am fod y gofal a'r cymorth a roddir iddynt yn cael eu darparu mewn amgylchedd glân, cartrefol sydd, ar y cyfan, yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda. Oherwydd y gwelliannau a wnaed i lendid yr adeilad, y cyfleusterau cegin a'r arferion rheoli heintiau, roedd iechyd a diogelwch y bobl yn cael eu diogelu'n well. Roedd y sylw a oedd yn cael ei roi i'r gwaith cynnal a chadw ac i'r décor yn helpu i hyrwyddo cysur y bobl a'u hymdeimlad o hunan-barch. Roedd gwiriadau monitro rheolaidd yn cael eu cwblhau gan y rheolwr er mwyn sicrhau bod y lefelau glendid gwell yn cael eu cynnal. Roedd lleisiau unigolion yn cael eu clywed am fod yr unigolyn cyfrifol yn ymweld â'r cartref yn rheolaidd ac yn gofyn i'r bobl am eu barn am y gwasanaeth roeddent yn ei gael. Gellid gwella diogelwch pobl ymhellach drwy wneud gwelliannau i'r amgylchedd, a oedd yn cynnwys y drysau tân, gan ein bod yn gweld nad oeddent yn diogelu pobl yn llawn o hyd rhag mwg a allai gael ei achosi gan dân. Cefnogir y bobl mewn llety addas, sy'n eu galluogi i gyflawni'r canlyniadau a nodir ar eu cyfer.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## 2. Yr Amgylchedd

### Ein canfyddiadau

Mae camau wedi cael eu cymryd i wella glendid a'r gwaith o gynnal a chadw'r amgylchedd yn gyffredinol. Yn yr arolygiad blaenorol, gwnaethom gyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio oherwydd sawl pryder ynghylch y gwaith o gynnal a chadw'r adeilad, peryglon iechyd a diogelwch posibl a'r diffyg glendid mewn rhannau o'r adeilad. Yn yr arolygiad hwn gwelsom fod y mwyafrif o'r ardaloedd, y gwnaethom dynnu sylw atynt fel rhai a oedd yn achosi pryder, wedi gwella. Roedd wynebau gweithio cegin, llawr cegin, gwyntyll echdynnu popty a ffriwr dwfn newydd wedi cael eu darparu ac roedd nenfwd y gegin wedi cael ei baentio eto. Roedd yr oergell a'r rhewgell yn lân, fodd bynnag, gwnaethom argymell y dylai'r staff gofnodi pryd roedd y peiriant dŵr yn yr oergell yn cael ei lanhau. Dylid ceisio arweiniad pellach hefyd ynghylch pa mor aml y dylid newid y dŵr yn y peiriant er mwyn lleihau'r risg o dwf bacterol niweidiol. Roedd y rhan fwyaf o'r ardaloedd yr oedd angen eu paentio wedi cael sylw.

Roedd rhai gwelliannau wedi cael eu gwneud i ystafell y gawod ar y llawr gwaelod ond roedd angen gwneud gwelliannau pellach. Roedd ystafell y gawod yn lân, roedd bar cawod newydd wedi cael ei osod ac nid oedd unrhyw arwydd o lwydni. Fodd bynnag, roedd cadair y gawod â staeniau arni o hyd. Dywedodd y rheolwr wrthym fod hyn er gwaethaf ymdrechion i lanhau'r sedd ac roedd wedi gofyn am sedd newydd i'r gawod. Gwnaethom argymell y dylid cael cadair cawod newydd gan fod hyn yn effeithio ar urddas y bobl. Roedd angen ailbaentio'r nenfwd yn yr ystafell hon, a dywedodd y rheolwr wrthym fod trefniadau ar waith iddo gael ei baentio yn y pythefnos nesaf. Nodwyd gennym o'r blaen fod angen step wrth ymyl un o'r baddonau er mwyn i bobl ddringo i mewn ac allan ohono yn ddiogel. Dywedodd y rheolwr wrthym ei fod yn dal i aros am step a gwnaethom nodi bod dal angen un.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Mae camau wedi eu cymryd i wella arferion rheoli heintiau yn y gwasanaeth. Roedd polisi rheoli heintiau ar gael i'r staff ei weld yn electronig er mwyn cael arweiniad. Roedd biniau pedal a weithredir gan droed a thywelion llaw papur ar gael yn yr ystafelloedd ymolchi a'r toiledau. Gwnaethom argymell y dylid darparu hylif golchi dwylo a thywelion llaw papur wrth y sinc yn yr ystafell golchi dillad er mwyn i'r staff olchi eu dwylo, os oedd angen. Sylwom fod darn o leino ar y llawr y tu allan i'r ystafell honno, ar ben un o'r grisiau, ar goll. Trafodwyd hyn â'r rheolwr, oherwydd gallai'r bobl a'r staff sy'n defnyddio'r ystafell golchi dillad faglu drosto, yn enwedig wrth gario dillad. Gwnaethom argymell y dylid gosod llawr newydd. Roedd golau nenfwd newydd yn y lolfa a oedd yn gweithio'n iawn yn ôl pob golwg. Dywedodd y rheolwr wrthym fod cwarelau'r ffenestri codi, a oedd mewn perygl o gwympo allan o'r blaen, wedi cael sylw a gwelsom enghraifft o hyn.

Roedd yr holl ardaloedd a welsom yn lân ac roedd amserlen lanhau ar waith. Mae'r rheolwr yn goruchwylio'r tasgau glanhau er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu cwblhau fel y

bwriadwyd. Argymhellom y dylai'r rheolwr gofnodi ei ganfyddiadau mewn perthynas â glendid yr amgylchedd.

Roedd rhai ardaloedd y nodwyd o'r blaen bod angen sylw arnynt yn dal i aros am y sylw hwnnw. Yn yr arolygiad blaenorol, nodwyd gennym fod bylchau o dan y drysau tân i fyny'r grisiau. Nid oedd y broblem hon wedi ei datrys yn ystod yr arolygiad hwn. Rydym yn disgwyl i'r darparwr wneud y trefniadau angenrheidiol er mwyn mynd i'r afael â'r broblem hon.

Felly, down i'r casgliad bod pobl yn cael eu cefnogi mewn amgylchedd sy'n hyrwyddo cyflawni eu canlyniadau personol ac sy'n diogelu eu hiechyd a'u diogelwch yn gyffredinol.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## 3. Arwain a Rheoli.

Mae’r unigolyn cyfrifol yn ymweld yn swyddogol â’r gwasanaeth yn gyson er mwyn monitro perfformiad y gwasanaeth. Roedd adroddiadau ar gael i ddangos ymweliadau'r unigolyn cyfrifol â'r gwasanaeth, a oedd yn cofnodi'r trafodaethau a gafwyd â'r rheolwr, y staff a'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Gwnaethom argymell bod yr unigolyn cyfrifol hefyd yn cofnodi'r gwaith o fonitro'r amgylchedd yn barhaus, rhywbeth a wneir fel rhan o'i ymweliadau swyddogol. Mae'r bobl yn cael budd o drosolwg lefel darparwr o'r gwasanaeth a ddarperir.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## 4. Gwelliannau sydd eu hangen ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn

### 4.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol

Yn yr arolygiad blaenorol, a gynhaliwyd ar 1 Awst 2019, gwnaethom gyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio i Cartrefi Cymru Co-operative Ltd am nad oeddent yn bodloni eu gofynion cyfreithiol mewn perthynas â'r canlynol:

Rheoliad 44 (4) (a) (d) (g) (h), (9) (a): Y safle.

Yn yr arolygiad hwn, roeddem yn fodlon bod y gwasanaeth yn cydymffurfio â'r rheoliadau. Roedd gwelliannau wedi'u gwneud o ran glendid yr amgylchedd, roedd trefniadau ar waith i wneud atgyweiriadau ac roedd peryglon posibl cyffredinol wedi cael eu nodi a'u dileu.

### 4.2 Argymhellion ar gyfer gwella

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Rydym yn argymell y canlynol:

- Dylai'r staff gofnodi pryd mae peiriant dŵr yr oergell yn cael ei lanhau a dylai canllawiau fod ar gael ar ba mor aml y dylid newid y dŵr yn y peiriant, er mwyn lleihau'r risg o dwf bacterol.
- Mae dal angen cael cadair cawod newydd yn ystafell y gawod ar y llawr gwaelod.
- Mae dal angen rhoi step er mwyn gallu dringo i mewn i'r baddon newydd.
- Dylai hylif golchi dwylo a thywelion papur fod ar gael wrth y sinc yn yr ystafell golchi dillad.
- Mae'r leino sydd ar y step i mewn i'r ystafell honno yn anwastad a gallai rhywun faglu drosto. Mae angen adnewyddu hyn.
- Dylai'r rheolwr gofnodi canfyddiadau'r gwiriadau a wna er mwyn dangos ei fod yn monitro safon y glendid yn yr amgylchedd.
- Mae bylchau o hyd rhwng gwaelod rhai o'r drysau tân a'r llawr a byddai hyn yn effeithio ar allu'r drysau i ddiogelu pobl rhag mwg a achosir gan dân. Mae angen rhoi sylw i hyn.
- Dylai'r unigolyn cyfrifol hefyd ddangos yn ysgrifenedig ei arsylwadau ar y safle, a wneir fel rhan o'i ymweliadau swyddogol.

## 5. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) yr arolygiad hwn â phwyslais penodol er mwyn ystyried y maes diffyg cydymffurfiaeth a nodwyd yn ystod yr arolygiad diwethaf. Roedd hwn yn arolygiad lle y rhoddwyd rhybudd oherwydd ymweliad dirybudd aflwyddiannus ar 18 Rhagfyr 2019. Cynhaliwyd yr arolygiad ar 20 Rhagfyr 2019 rhwng 11:45 am a 1:45 pm. Darparwyd adborth i'r rheolwr ar ddiwedd yr arolygiad. Ystyriwyd y rheoliadau canlynol fel rhan o'r arolygiad hwn:

·Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017.

Defnyddiwyd y dulliau canlynol:

- Gwnaethom gynnal arolygiad o'r adeilad, gan fynd i weld yr ardaloedd a wnaeth beri pryder yn ystod yr arolygiad blaenorol.
- Gwnaethom siarad â'r dirprwy reolwr a'r rheolwr.
- Gwnaethom edrych ar y dogfennau canlynol:
  · Amserlen lanhau ar gyfer mis Rhagfyr 2019;
  · Rhestr wirio lanhau wythnosol;
  · Adroddiadau ymweliadau swyddogol yr unigolyn cyfrifol dyddiedig 25 Medi 2019 a 27 Tachwedd 2019;
  · Polisi rheoli heintiau dyddiedig Ebrill 2019;

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Ceir rhagor o wybodaeth am yr hyn rydym yn ei wneud ar ein gwefan: www.arolygiaethgofal.cymru

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| **Y math o ofal a ddarperir** | **Gwasanaeth Cartref Gofal** |
| **Darparwr y Gwasanaeth** | **Cartrefi Cymru Co-Operative Ltd** |
| **Unigolyn Cyfrifol** | **Adrian Roper** |
| **Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd** | **5** |
| **Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru** | **01/08/2019** |
| **Dyddiad yr ymweliad Arolygu hwn** | **20/12/2019** |
| **Iaith weithredol y gwasanaeth** | **Y ddwy** |
| **A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg?** | **Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu'r cynnig rhagweithiol Cymraeg.** |
| **Gwybodaeth Ychwanegol:** | |

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

**Dyddiad Cyhoeddi** 18/03/2020

Nid oedd gan unrhyw gofnodion diffyg cydymffurfio statws Agored.

# Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi